Maethu Cymru RhCT
Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig

Gorffennaf 2024
Cyfrol 1, Rhifyn 1



# Cylchlythyr Gwarcheidwaid Arbennig Rhondda Cynon Taf

## CROESO I'R RHIFYN CYNTAF!

Yn 2023 aethon ni ati i arolygu eich barn ar nifer o faterion yn ymwneud â Gwarcheidwaeth Arbennig. Dysgon ni y dylen ni wella'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu â chi, felly dyma ni. Rwy'n gobeithio y bydd y cylchlythyr yma'n llawn gwybodaeth ac yn hwyl i'w ddarllen!

Hefyd, os hoffech chi wybod rhagor am arolwg y llynedd mae'r adroddiad llawn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gais, ond gobeithiwn y bydd y rhan fwyaf ohonoch chi wedi ei dderbyn yn barod.

Os ydych chi am gymryd rhan yn arolwg eleni, mae modd cyfrannu hyd at fis Hydref 2024. Mae modd dod o hyd iddo trwy'r cod QR gyferbyn.

Gobeithiwn y bydd y diweddariad rheolaidd yma'n cael ei gynnal bedair gwaith y flwyddyn ac y bydd yn cynnwys gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael a sut i'w gyrchu, dysgu cryno ar faterion cyfoes, a newyddion am ddatblygiadau newydd ym maes Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig.

Rydyn ni bob amser yn ymdrechu i wneud yn well ac rwy'n gobeithio bod y cylchlythyr yma'n gam cyntaf cadarnhaol.

*Abigail Durrans* —Rheolwr Carfan Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig/Asesiad Perthynas

*Sophie Smith* - Gweithiwr Cymorth Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig (ac yn gofalu am y cylchlythyr)

Special Guardianship Survey 2024/25

## AFKA CYMRU WEDI DATBLYGU CARDIAU GWARCHEIDWAETH ARBENNIG NEWYDD


Mae AFKA Cymru wedi creu cerdyn dwyieithog newydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer Gwarcheidwaid Arbennig. Mae modd cyflwyno'r cerdyn i unrhyw wasanaeth, person neu weithiwr sydd angen deall yn well beth mae'n ei olygu i fod yn Warcheidwad Arbennig. Mae pob cerdyn yn cynnwys cod QR sy'n cysylltu â thaflen gynhwysfawr sy'n manylu ar swyddogaethau a chyfrifoldebau Gwarcheidwad Arbennig, ac mae wedi'i gynllunio i ddarparu cymorth lle mae angen eglurhad pellach ynghylch eich rôl, yn enwedig mewn sefyllfaoedd lle nad yw'n ymarferol trafod materion o'r fath yn agored. Bydd y rhain yn cael eu hanfon i bob Gwarcheidwad Arbennig maes o law, felly cadwch lygad am eich cerdyn am ddim a fydd yn cyrraedd drwy'r post! Am ragor o wybodaeth ac i bori gwasanaethau eraill sydd ar gynnig, mae modd ymweld â gwefan AFKA Cymru neu anfon e-bost i gwybodaeth@afkacymru.org.

YN Y RHIFYN YMA


Llyfr Coginio Maethu Cymru ..... 2
Cymorth i Deuluoedd Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig ..... 2
Pethau i'w gwneud yn yr awyr agored dros yr haf ..... 3
Eisteddfod ..... 4
Cyflwyno ein gweithiwr cymorth newydd ..... 4
Newyddion da ..... 4
Cyfleoedd hyfforddi ..... 5
Ystyriaethau treth ar gyfer Teuluoedd Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig ..... 5
Arolwg Voices from Care Cymru ..... 5
Kinship Cymru ..... 6


PWYNTIAU O DDIDDORDEB ARBENNIG

- Gadael gwaddol (tudalen 3)
- Cyfleoedd ymchwil (tudalen 4)




## GALL PAWB GYNNIG RHYWBETH - CYFRES O RYSEITIAU TEULUOL EIN GWARCHEIDWAID YN LLYFR COGINIO NEWYDD MAETHU CYMRU

Yn ystod Pythefnos Gofal Maeth™ eleni, lansiodd Maethu Cymru lyfr coginio newydd gyda chefnogaeth enwogion, o'r enw Gall Pawb Gynnig Rhywbeth.

Mae'r llyfr coginio yn cynnwys 20 o ryseitiau blasus gan enwogion fel Wynne Evans, Fatima Whitbread a Kiri Pritchard-Mclean, ynghyd â rhai o ffefrynnau teuluol o'r gymuned faethu. Mae'r llyfr hefyd yn rhannu rhai atgofion pwysig am brofiad cynhalwyr a phobl ifainc sydd â phrofiad o ofal, i godi proffil maethu a galw ar bobl ledled Cymru i ystyried dod yn rhieni maeth/gwarcheidwaid.

Trwy'r ryseitiau a'r straeon yma, mae Maethu Cymru yn ceisio dangos bod eisoes gan lawer o bobl y sgiliau i gefnogi person ifanc drwy dynnu sylw at y pethau syml y gall cynhalwyr/gwarcheidwaid eu cynnig, fel sicrwydd amser bwyd rheolaidd, amser teulu o amgylch y bwrdd a dod o hyd i hoff fwydydd newydd. Gall pethau fel hyn helpu i drawsnewid bywydau pobl ifainc.

Mae modd lawrlwytho fersiwn digidol o lyfr coginio [Gall Pawb Gynnig Rhywbeth - Maethu Cymru (llyw.cymru)](#) .

---

*"Y sgiliau bob dydd, fel coginio swper bob nos, sy'n helpu pobl ifainc i deimlo'n ddiogel, yn meithrin hyder ac yn creu atgofion sy'n para ar hyd eu hoes"*
*- Alastair Cope, Pennaeth Maethu Cymru*

---

Beth yw hawliau cyfreithiol Gwarcheidwad Arbennig o ran cyswllt â theulu biolegol/'amser teulu'?

Mae modd amlinellu trefniadau cyswllt yn glir ar gyfer rhai Gwarcheidwaid Arbennig yn rhan o'u hasesiad Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig (GGA), tra bydd disgwyl i eraill wneud trefniadau anffurfiol eu hunain.

Dylid penderfynu ar gyswllt bob amser ar sail yr hyn sydd er lles y plentyn. Bydd y Gwarcheidwad Arbennig â chyfrifoldeb rhiant ac felly bydd modd i'r gwarcheidwad benderfynu beth sydd er y budd gorau i blentyn. Er ei fod yn bwysig i Warcheidwaid Arbennig annog cyswllt, does dim modd iddyn nhw orfodi'r plentyn i fynychu.

## MAE COD YMARFER GGA LLYWODRAETH CYMRU YN NODI YGALLAI FOD GAN Y SECTORAU GWIRFODDOL AC ANNIBYNNOL HEFYD RÔL BWYSIG I'W CHWARAE WRTH GWASANAETHAU CYMORTH GWARCHEIDWAETH ARBENNIG

Wrth ddatblygu gwasanaethau cymorth, caiff Awdurdodau Lleol eu hannog i weithio gyda darparwyr anstatudol presennol gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel i fanteisio ar yr arbenigedd sydd gyda nhw yn y maes yma ac osgoi darparu gwasanaeth i'r un person ddwywaith. Yn yr Awdurdod yma, rydyn ni wedi comisiynu Kinship CYMRU i gynnig cymorth gan gymheiriaid, cyngor cyffredinol a chyfeirio ar gyfer ein Gwarcheidwaid Arbennig. Yn ogystal â'r hyn y gall carfan yr Awdurdod Lleol ei gynnig. Mae trosolwg o'r hyn y gall Gwarcheidwaid Arbennig gael mynediad ato fel a ganlyn:

- Cynnig adolygiad blynyddol o gynllun gofal a chymorth plentyn
- Manteisio ar wasanaethau Cwnsela trwy 'Eich Gofal'
- Cefnogaeth gyda deinameg 'cadw mewn cysylltiad' trwy wasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu
- Pecyn ariannol yn seiliedig ar brawf modd.
- Mynediad at sesiynau hyfforddi a datblygu
- Cefnogaeth gyda gwaith stori bywyd i blant
- Mynediad i gefnogaeth gan gymheiriaid ac eiriolaeth i gynhalwyr trwy Kinship CYMRU
- Os ydych chi'n byw y tu allan i Rondda Cynon Taf/Tu allan i Gymru bydd unrhyw gymorth yn cael ei drosglwyddo i'ch ardal leol ar ôl 3 blynedd o ganiatáu'r Gorchymyn. (Mae cyfraith Lloegr yn golygu y bydd cytundebau cyfatebol rhwng Cymru/Lloegr).



# PETHAU I'W GWNEUD YN YR AWYR AGORED DROS YR HAF ELENI

**Lido Ponty | Mawrth - Medi 2024**

Paratowch i fentro i ddŵr y Lido wrth i brif dymor yr haf ddechrau! Bydd tri phwll Lido Cenedlaethol Cymru ar agor bob dydd tan 15 Medi gan gynnwys nofio mewn lôn a nofio hamddenol, pwll sblasio gyda ffynnon, cwrs rhwystrau gwynt, zorb dŵr a chychod padlo. Mae tocynnau'n costio £3 i oedolion ond maen nhw am ddim i blant iau nag 16 oed (er bod tâl archebu o 25c yn berthnasol i'r ddau). I weld yr amserlen ac archebu eich tocynnau, ewch i Lido Ponty | Nofio Awyr Agored ym Mhontypridd, De Cymru (rctcbc.gov.uk).

**Blits Gwyllt a Diwrnod Hwyl i'r Teulu | Dydd Sul 11 Awst 2024**

Ymunwch â Phrosiect Mawndiroedd Coll ym Man Gwyllt Cymuned Blaenrhondda am ddiwrnod llawn hwyl ym myd natur! Mae'r achlysur am ddim a bydd yn cael ei gynnal rhwng 10am a 3pm. Byddwn ni'n cyfarfod ym maes parcio Pen Pych. Bydd amserlen lawn yn cael ei hanfon at ddeiliaid tocynnau. Bydd yr amserlen yn cynnwys teithiau tywys drwy fyd natur, celf a chrefft, gweithdai iechyd a lles a thaith gors. Am ragor o wybodaeth ac i archebu eich tocynnau ewch i Diwrnod Blits Gwyllt a Hwyl i'r Teulu - Cofrestru RhCT, Sul 11 Awst 2024 am 10am | Eventbrite <https://www.eventbrite.co.uk/e/wild-blitz-family-fun-day-rct-registration-873247445617>.

**Gŵyl Fwyd a Diod Pont-y-clun | Dydd Sadwrn 24 Awst 2024**

Mae Gŵyl Fwyd a Diod flynyddol Pont-y-clun yn ôl gyda mwy o ddanteithion blasus i bawb eu mwynhau! Bydd amrywiaeth eang o lorïau bwyd a diod, yn amrywio o fwyd artisan, bwyd stryd, nwyddau wedi'u pobi a rhai dewisiadau bwyd arobryn o bob rhan o'r byd. Byddwch chi hefyd yn dod o hyd i seidr a jin cartref, yn ogystal â stondinau sy'n gwerthu nwyddau coginio. Mae mynediad am ddim i'r achlysur yma a fydd yn cael ei gynnal rhwng 12pm a 5pm yng Nghanolfan Gymuned a Maes Parcio Pont-y-clun ar Heol yr Orsaf. Mae rhywbeth at ddant pawb felly beth am alw draw, prynu danteithion a mwynhau ychydig o gerddoriaeth wrth fwyta!

**GADAEL GWADDOL...**

**Gwarcheidwaid Etifeddiaeth**

Mae'r term yma yn cyfeirio at yr aelodau o'r teulu sydd wedi'u nodi gan Warcheidwad Arbennig, yn aml mewn ymgynghoriad â'r gweithiwr cymdeithasol sy'n asesu, i ofalu am y plentyn/plant mewn achos o farwolaeth, salwch difrifol neu analluogrwydd. Rydyn ni'n gwybod bod llawer o'n Gwarcheidwaid Arbennig yn neiniau a theidiau ac, er mwyn cynllunio ar gyfer dyfodol hirdymor y plentyn, dylid annog aelodau iau eraill o'r teulu i gamu i fyny os oes angen.

Mae gan y llysoedd ddisgwyliadau gwahanol o ran asesu ymwneud y gweithiwr cymdeithasol â gwarcheidwaid a'u hasesiad ohonyn nhw. Gall hyn ddibynnu ar y Gwarcheidwaid Arbennig eu hunain a'u hoedran a'u hiechyd. Fel gydag unrhyw deulu, mae'n syniad da siarad a gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiadau lle mae modd i salwch neu farwolaeth ymyrryd.

**Gwarcheidwaid Etifeddiaeth**

Unwaith y bydd y Gwarcheidwaid Etifeddiaeth wedi'u nodi, mae'n ddoeth i'r Gwarcheidwad/ Gwarcheidwaid Arbennig wneud y gwarcheidwaid yma yn Warcheidwaid Ewyllysiol, o dan adran 5 Deddf Plant 1989.

Mae modd gwneud hyn trwy ddrafftio dogfen fer, sydd yn aml wedi'i chynnwys mewn ewyllys, gan benodi'r gwarcheidwaid etifeddiaeth fel gwarcheidwaid os bydd y gwarcheidwad/ gwarcheidwaid arbennig yn marw.

*Mae Gwarcheidwad Ewyllysiol yn berson rydych chi'n ei benodi yn eich ewyllys i ofalu am blentyn pe baech chi yn marw. Mae modd i chi nodi'r trefniadau gofalu yn eich ewyllys neu'n ysgrifenedig. Unwaith y caiff ei benodi, bydd Gwarcheidwad Testamentaidd yn cymryd cyfrifoldeb rhiant llawn am y plentyn.*

## CYFLEOEDD YMCHWIL

Ydych chi'n Warcheidwad Arbennig i blentyn rhwng 4 a 7 oed?

Gallech chi gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil sy'n cael ei chynnal gan Brifysgol Caerdydd sy'n canolbwyntio ar sut mae plant yn dysgu ac yn datblygu, rôl rhyngweithio rhwng plant a chynhalwyr a chefnogi plant yn yr ysgol.

Mae Prifysgol Caerdydd yn gwahodd plant 4-7 oed a'u gwarcheidwaid arbennig i ymweld â hi i gymryd rhan mewn rhai gweithgareddau sy'n briodol i'w hoedran a chwblhau holiadur, ac wedi hynny bydd seicolegydd addysg yn ysgrifennu adroddiad i'w anfon i ysgol y plentyn, i helpu athrawon i ddeall y ffordd orau o weithio gyda'ch plentyn a'i gefnogi.

I ddysgu rhagor am y prosiect neu i gymryd rhan, e-bostiwch SGO@cardiff.ac.uk, neu ewch i Teuluoedd gwarcheidwaeth arbennig yng Nghymru: Profiadau ac anghenion cymorth (Sefydliad Nuffield) – CASCADE (cascadewales.org).



# MAE EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU YN DOD I RONDDA CYNON TAF!

Eisteddfod Genedlaethol Cymru yw un o wyliau diwylliannol mwyaf Ewrop ac eleni, bydd yr ŵyl yn cael ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cynhelir yr achlysur ym Mhontypridd rhwng 3 a 10 Awst, a bydd y Maes wedi'i leoli ym Mharc Coffa Ynysangharad.


Mae'r achlysur yma sy'n addas i deuluoedd yn ddathliad bendigedig o ddiwylliant Cymru, sy'n annog pawb, waeth beth fo'ch sgiliau Cymraeg, i ddod i brofi amrywiaeth o berfformiadau, cystadlaethau ac elfennau gŵyl.

Y pafiliwn yw'r babell fwyaf ar y Maes a dyma lle bydd llu o gystadlaethau yn cael eu cynnal, ynghyd â'r holl seremonïau swyddogol.

Bydd artistiaid cerdd lleol a chenedlaethol hefyd yn perfformio ar lwyfan awyr agored o 12pm ymlaen bob dydd, a bydd Maes B yn cynnal gŵyl gerddoriaeth gyfoes wedi iddi dywyllu lle gallwch chi ddawnsio nes daw'r wawr. Bydd y gorau o gerddoriaeth werin a diwylliant Cymru yn y Tŷ Gwerin, lle byddwch chi'n dod o hyd i gymysgedd o ddawnsio, adrodd straeon a gweithgareddau gwerin eraill trwy gydol yr wythnos.

Gydag amrywiaeth o berfformiadau stryd, llwyfannau i lenyddiaeth Gymraeg a stondinau yn gwerthu nwyddau Cymreig hefyd, mae rhywbeth at ddant pawb ar y Maes yn yr wythnos orlawn yma o ddathliadau!

Am ragor o wybodaeth ac i weld amserlenni, ewch i Eisteddfod | 2024.




# SOPHIE SMITH—PWY YDW I A FY RÔL I



Helo, Sophie ydw i ac rydw i'n newydd i fy rôl fel Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd gyda charfan Maethu ac Asesu Perthnasau Cyngor RhCT. Yn fy rôl, byddaf i'n helpu i gefnogi teuluoedd GGA trwy ddarparu gwybodaeth, cymorth, hyfforddiant a gwaith therapiwtig tymor byr lle mae angen ychydig o gymorth ychwanegol ar deuluoedd.

Mae gen i lawer o brofiad o weithio gyda theuluoedd, a phlant a phobl ifainc o bob oed ar ôl bod yn Gynorthwyydd Addysgu mewn ysgol uwchradd ac mewn ysgolion cynradd yn gweithio ar draws CA2 a'r Cyfnod Sylfaen dros y 9 mlynedd diwethaf, yn ogystal â bod yn arweinydd mewn unedau Rainbows a Brownis lleol ar gyfer Girlguiding am y 7 mlynedd diwethaf .

Rwy'n wirioneddol angerddol am les plant a sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i'w galluogi i ffynnu, felly rwy'n edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda chi i gyd a dod i'ch adnabod chi a'ch teulu yn well!

# NEWYDDION DA

Oes gennych chi unrhyw straeon newyddion da yr hoffech chi eu rhannu? Dyma'ch cyfle chi i gymryd rhan a dweud eich dweud yn y cylchlythyr yma!

Rydyn ni am ddathlu'r holl bethau gwych y mae ein teuluoedd GGA yn eu gwneud a'ch galluogi chi i rannu eich cyflawniadau gyda chynhalwyr eraill yn ein rhwydwaith, felly byddwn ni'n defnyddio'r adran yma i dynnu sylw at stori newyddion gadarnhaol wahanol ym mhob rhifyn.

Er mwyn i'ch stori gael ei chynnwys mewn cyhoeddiadau yn y dyfodol, anfonwch baragraff byr yn manylu ar y newyddion da yr hoffech ei rannu, ynghyd ag unrhyw luniau sy'n ymwneud â'ch darn (sicrhewch fod modd i'r rhain gael eu rhannu'n gyhoeddus) i Sophie.Smith@rctcbc.gov.uk , ac efallai mai chi fydd y pennawd yn ein cylchlythyr nesaf!


# CYFLEOEDD HYFFORDDI

Mae Gwasanaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf wedi creu calendr hyfforddi o fis Ebrill i fis Mawrth bob blwyddyn sydd ar gael i rieni maeth, rhieni sy'n berthnasau a Gwarcheidwaid Arbennig. Mae gan y garfan lawer o gyrsiau hyfforddi ar gael yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau. Mae modd cael mynediad at y rhain drwy RCT Source (learningpool.com).

Bydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif Source i gael mynediad i'r calendr yma a chadw lle ar bob un o'r cyrsiau, felly os nad oes gennych un ar hyn o bryd, anfonwch e-bost i **ellie.powell@rctcbc.gov.uk** i sefydlu cyfrif.

Dyma rai o'r cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael dros y misoedd nesaf:


| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Emosiynau ('Emotional Coaching') | 16/9/24 rhwng 9.30am a 12.30pm dros Zoom |
| Cymorth ar gyfer Ymddygiad Niwroddatblygiadol | 19/9/24 rhwng 10am a 2pm yn Tŷ Elai, CF40 1NY |
| Gweithio gyda Theuluoedd Biolegol a'r Cyswllt sydd gyda nhw | 20/9/24 rhwng 10am a 2pm yn y Ganolfan Ddinesig, Merthyr Tudful, CF478AN |
| Aros yn Gysylltiedig Trwy Drawma - Rheoleiddio Systemau Nerfol | 22/10/24 rhwng 10am a 2pm dros Zoom |




# YSTYRIAETHAU TRETH AR GYFER TEULUOEDD GORCHYMYN GWARCHEIDWAETH ARBENNIG

Er y bydd dyfarnu GGA yn newid eich sefyllfa gyfreithiol gyda'r plentyn yn eich gofal, ni fydd eich statws treth fel Gwarcheidwad Arbennig yn newid, gan gynnwys os oes gennych chi statws hunangyflogedig. Mae hyn oherwydd yr eithriad 'gwarcheidwaid cymwys' sy'n golygu bod unrhyw daliadau a wneir i chi yn cael eu trin mewn ffordd debyg i daliadau i'r rhai sydd wedi mabwysiadu plentyn ac wedi cael lwfans mabwysiadu, ac felly wedi'u heithrio rhag treth.

Mae'r eithriad treth yma'n berthnasol i daliadau a gewch gan rieni'r plentyn, yn ogystal â thaliadau a wneir gan neu ar ran yr awdurdod lleol mewn perthynas â'r GGA. Dydy'r taliadau yma ddim yn cael eu trin fel incwm o hunangyflogaeth, felly does dim angen i chi eu datgan ar ffurflen dreth hunanasesiad.



# AROLWG VOICES FROM CARE CYMRU

Mae Voice from Care Cymru am ymgynghori â phlant a phobl ifainc sydd wedi bod mewn gofal ledled Cymru i ddeall yr angen am eu gwasanaeth cwnsela a lles. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth ar gael i unrhyw berson sydd â phrofiad o dderbyn gofal, beth bynnag fo'u hoedran. Mae'r cymorth mae'r gwasanaeth yn ei gynnig yn canolbwyntio ar sesiynau llesiant 1-2-1, cwnsela, gweithgareddau gwaith grŵp a gweithgareddau lles cyffredinol, yn ogystal â hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a mynediad at offer hunangymorth, fel eu dyddlyfr llesiant.

Mae eich llais yn hynod bwysig wrth lunio dyfodol y gwasanaeth yma ac mae'r garfan gofyn am eich cefnogaeth i gwblhau arolwg byr, i helpu i ddeall a oes angen i'r gwasanaeth barhau, sut mae'n cyd-fynd â gwasanaethau eraill sydd ar gael, beth sydd wedi gweithio'n dda a beth ddylai edrych yn wahanol am y gwasanaeth.

Mae modd cyrchu'r arolwg trwy'r ffurflen ganlynol a gellir ei gwblhau p'un a ydych chi wedi cael cefnogaeth uniongyrchol gan y prosiect ai peidio: https://forms.office.com/e/9y8Kbgga2J. Os oes angen cymorth arnoch chi i gwblhau'r arolwg neu os hoffech chi unrhyw wybodaeth bellach, anfonwch e-bost i info@vfcc.org.uk.

Canmoliaeth, sylwadau ac awgrymiadau:

Ein bwriad ni yw darparu gwasanaethau o safon uchel i'r bobl sy'n eu defnyddio nhw. Os oes awgrym gyda chi ynghylch sut y mae modd i ni wella ein gwasanaethau, bydden ni'n croesawu eich sylwadau.

Os ydych chi'n hapus gyda'r gwasanaeth rydych chi wedi'i dderbyn, mae modd i chi roi gwybod i ni drwy gysylltu â'r Garfan Gwella Gwasanaethau yn uniongyrchol. Mae'n bwysig ein bod ni'n gwybod pa rai o'n gwasanaethau a'n staff sy'n bodloni'r bobl sy'n eu defnyddio nhw, a'n bod ni'n cydnabod ac yn rhannu arferion da ar draws y Cyngor.

Cysylltwch â ni

I gysylltu â'r Garfan Gwella Gwasanaethau a siarad â Swyddog Cwynion, cysylltwch â:

Carfan Gwella Gwasanaethau

Tŷ Elai, Dwyrain Dinas Isaf, Trewiliam, Tonypandy, Rhondda Cynon Taf, CF40 1NY

(Ffoniwch 01443 425003)

E-bost: gwrando.cwynion@rctcbc.gov.uk

## KINSHIP CYMRU

compass.kinship.org.uk

Canolfan annibynnol llawn gwybodaeth, cyngor a chymorth ar-lein ar gyfer cynhalwyr sy'n berthnasau yn unig. Dyma ganolfan i fynd i gael gwybodaeth, cyngor arbenigol a chymorth ar gyfer pob cam o'ch taith gofal gan berthnasau, wedi'i deilwra i'ch sefyllfa.

Ynghylch Kinship

Kinship yw'r brif elusen gofal gan berthnasau yng Nghymru a Lloegr. Rydyn ni'n gweithio gyda'r holl gynhalwyr sy'n berthnasau - y neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd, modrybedd, ewythrod, a ffrindiau teulu - sy'n gofalu am blant pan na all eu rhieni wneud hynny.

"Cyngor gwych wedi'i egluro'n dda gan garfan gyfeillgar. Cefnogaeth sydd ei angen yn fawr ar bob cynhaliwr sy'n berthnasau yn y dyfodol neu'r presennol."

Cynhaliwr sy'n berthynas a mynychwr gweithdai

Cefnogi RhCT i gefnogi cynhalwyr sy'n berthnasau (maethu a GGA)


Carfan Gorchymyn Gwarcheidwaeth Arbennig
Tŷ Catrin
Uned 1, Ystad Ddiwydiannol Hen Lofa'r Maritime
Pontypridd
CF37 1NY

Rhif ffôn: 01443 425007
E-bost: SGOteam@rctcbc.gov.uk





RHONDDA CYNON TAF